BYD YR IFANC

Addewidion, addewidion!

RHIFYN 41

Rydyn ni gyd wedi gwneud addewidion, ond mae cadw addewid yn fater gwahanol. Mae **Byd yr Ifanc** am edrych ar yr addewidion mae llywodraethau'r byd wedi eu gwneud er mwyn gostwng tlodi; sut mae'r addewidion hyn yn mynd yn eu blaenau; a beth allwn ni ei wneud er mwyn sicrhau bod yr addewidion hyn yn cael eu cadw.

Gweithgaredd 1 Torri addewid

NOD: I archwilio ein profiadau ni o dorri addewid

Torrwch y grŵp i mewn i barau a gofynnwch iddynt sôn wrth ei gilydd am unrhyw addewid y maent wedi ei wneud a phaham. Ydyn nhw wedi gwneud addewid, neu oes rhywun arall wedi gwneud addewid iddyn nhw ac yna ei thorri? Beth oedd y canlyniadau? Sut oedden nhw'n teimlo?

Gweithgaredd 2 Breuddwydion y Mileniwm

NOD: Cyflwyno addewid a wnaethpwyd gan lywodraethau'r byd yn 2000

Gofynnwch i'r grŵp ysgrifennu neu dynnu llun rhywbeth wnaeth ddigwydd yn y flwyddyn 2000. Yn ogystal â phethau personol, gofynnwch iddynt feddwl am bethau oedd yn y newyddion. Soniwch wrthynt am addewid a wnaethpwyd gan bob un o'r 189 aelod lywodraeth o'r Cenhedloedd Unedig i haneru tlodi byd-eang erbyn y flwyddyn 2015.

TRAFODWCH: A yw hi'n bosib cadw'r fath addewid? Beth allai fod yn feini tramgwydd?

Gweithgaredd 3 Targed!

NOD: I gyflwyno ac archwilio Targedau Datblygiad y Mileniwm

Eglurwch bod y llywodraethau wedi gosod wyth targed iddyn nhw eu hunain er mwyn cyflawni eu haddewid. Galwyd y rhain yn Dargedau Datlolygiad y Mileniwm. Addawodd y llywodraethau y byddent, mewn cymhariaeth â ffigyrau 1990 yn:

- haneru'r nifer o bobl fyddai'n byw ar lai na UD$1 (70c) y diwrnod a haneru'r gyfran o bobl yn dioddef o newyn
- sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg gynradd
- sicrhau bod merched yn cael yr un cyfle â bechgyn i fynd i'r ysgol
- torri marwolaethau babanod a phlant ifanc wrth 2/3
- gostwng nifer y merched sy'n marw ar enedigaeth plant wrth 3/4
- ymladd HIV/AIDS, malaria ac afiechydon eraill
- haneru nifer y bobl sydd heb ddŵr glân i'w yfed, trawsnewid bywydau 100 miliwn o bobl sy'n byw mewn slymiau, ceisio atal difa rhywogaethau natur prin
- creu rheolau masnachu tecach, gostwng dyled y gwledydd tlotaf, cynyddu cymorth, gwella cyfleon gwaith ar gyfer pobl ifanc, a rhoi mynediad gwell i dechnoleg a chyffuriau fforddiadwy i bobl

(Ceir rhestr llawn o Dargedau Datblygiad y Mileniwm ar www.un.org/ millenniumgoals neu cysylltwch a CAFOD am boster o'r Targedau).

Ysgrifennwch bob Targed ar wahanol ddarnau o bapur. Gofynnwch i'r grŵp eu gosod mewn trefn pwysigrwydd. Wrth reswm, does dim ateb cywir – nod yr ymarfer yw annog trafodaeth.

Gweithgaredd 4 Hanes Ana Maiba

NOD: I weld sut all y Targedau newid bywydau

Gofynnwch i bobl pa Darged fyddai'n addas i ba hanes.

Mae diwrnod Ana'n cychwyn wrth iddi wawrio, wrth iddi fynd ar daith hir ar y trên i gasglu tri bag llawn o siarcol, pob un yn pwyso tua 50kg (bron 8 stôn). Mae'r daith yno ac yn ôl yn cymryd drwy'r dydd. Pan mae hi'n cyrraedd adre o'r diwedd rhaid iddi roi'r siarcol mewn bagiau bach er mwyn iddi allu eu gwerthu.

Mae Ana'n byw mewn tref fechan yn Zambia. Mae hi'n fam ganol oed sy'n magu saith o blant ar ei phen ei hunan. 'Faint bynnag o elw 'dwi'n ei wneud, tydi o byth yn ddigon i fwydo fy holl deulu', meddai.

Mae Ana yn dioddef o ddiffyg maeth, ond mae hi hefyd yn byw gyda HIV, sydd wedi gwanhau ei sustem imiwnedd. Os fydd hi'n marw, bydd rhaid i'r plant edrych ar ôl eu hunain.

parahâd trosodd...

Cymorth Cristnogol
Credwn mewn byw cyn marw

CAFOD
un byd yn unig just one world

Gweithgaredd 4 Hanes Ana Maiba parahâd ...

TRAFODWCH: Pa bethau fyddai llywodraethau'n gallu eu gwneud er mwyn rhoi'r help mwyaf i Ana a'i theulu?

CAFOD/Annie Bungeroth

Nid yw'r arian ymae Ana Maiba yn ei ennill o werthu siarcol yn ddigon i fwydo ei theulu

Gweithgaredd 5 Tic Toc y cloc

NOD: I archwilio faint mae llywodraethau'n gwneud er mwyn ceisio cyrraedd at Dargedau Datblygiad y Mileniwm

Gofynnwch i'r grŵp bleidleisio ar raddfa 1-10 (1=dim cynnydd, 10=popeth wedi ei gyflawni) ar ba mor agos y bydd pob targed yn cael ei gyrraedd erbyn 2015. Cofnodwch y pleidleisiau*. Yna, am bob targed, darllenwch y wybodaeth isod a gofynnwch iddynt bleidleisio eto.

Targed 1

- Mae 1.2 biliwn o bobl – dyna 1/5 o boblogaeth y byd – yn dal i fyw ar lai na 70c y dydd.
- Yn Affrica Is-y Sahara a darnau o Asia mae tlodi wedi cynyddu.
- Mewn rhannau eraill o'r byd mae'r sefyllfa neullai wedi aros yr un fath neu wedi gwella.

Targed 2

- Nid yw 114 miliwn o blant yn derbyn addysg. Mae hynny gyfystyr a bron ddwywaith poblogaeth holl wledydd Prydain.
- Yn y gwledydd sydd wedi datblygu leiaf, dim ond 6 plentyn allan o bob 10 sy'n mynd i'r ysgol.
- Bu cynnydd yn y mwyafrif o rannau eraill.

Targed 3

- Mewn chwarter y gwledydd, mae llai na 8 merch am bob 10 o fechgyn yn mynd i'r ysgol .
- Bu cynnydd yn y mwyafrif o rannau eraill.

Targed 4

- Mae bron i 11 miliwn o blant dan 5 oed yn marw mewn gwledydd tlawd bob blwyddyn.
- Yng ngwledydd Is-y Sahara mae nifer y plant sy'n marw cyn cyrraedd 5 oed wedi cynyddu ers 1990.
- Mae cynnydd mewn rhannau eraill.

Targed 5

- Bob blwyddyn mae 1/2 miliwn o ferched yn marw tra eu bod yn feichiog neu ar enedigaeth plentyn.
- Does dim llawer o arwyddion cynnydd mewn gwledydd eraill sy'n datblygu.

Targed 6

- Mae 1 miliwn o bobl yn marw bob blwyddyn o malaria ac 1.6 miliwn o'r diciau.
- HIV ydi prif achos marwolaeth yng ngwledydd Is-y Sahara a'r pedwerydd achos marwolaeth mwyaf cyffredin yn y byd.
- Dim ond 2 wlad sydd wedi llwyddo i atal cynnydd mewn achosion o HIV.

Targed 7

- Mae mwy nag 1 biliwn o bobl heb ddŵr glân i'w yfed a does dim tŷ bach addas gan 2.4 biliwn o bobl.
- Mae slymiau trefol yn cynyddu yn y rhannau o'r byd sy'n datblygu.
- Mae nifer rhywogaethau natur prin yn cynyddu.

Targed 8

- Rheolau masnachu annheg yw un o'r meini tramgwydd mwyaf i ddatblygiad.
- Yn 2004, pleidleisiodd y gwledydd cyfoethog yn erbyn dileu 100% o ddyledion y gwledydd tlawd.
- Er bod lefel cymorth y DU yn cynyddu, mae'r cymorth ar raddfa rhyngwladol yn gostwng.
- Mae gwledydd tlawd dal yn gorfod talu am hadau sydd o dan patent y cwmniau mawr rhyngwladol (gweler www.christianaid.org.uk/indepth/0001biot/biotech am ragor o wybodaeth).

TRAFODWCH: Oedd yna unrhyw newidiadau mawr yn y pleidleisio? Oedd y grŵp wedi eu synnu gydag unrhywbeth? Beth yw eu barn erbyn hyn am y Targedau ac am addewidion y llywodraethau?

*** o http://millenniumindicators.un.org/unsd/mi/mi_coverfinal.htm**

Gweithgaredd 6 Ymgyrchu?

NOD: I archwilio achosion tlodi a sut gellir eu taclo

Eglurwch bod arweinwyr yr wyth wlad gyfoethocaf yn yn trafod Targedau Datblygiad y Mileniwm yn eu cyfarfod yn yr Alban yn 2005. Beth ddylai fod eu blaenoriaethau, ym marn y grŵp? Oes ganddynt syniadau am ffyrdd o ddylanwadu ar yr arweinwyr hyn? Pa mor bwysig allai sicrhau rheolau masnachu tecach fod i leihau tlodi? Gweler **www.tradejusticemovement.org.uk** am ragor o wybodaeth am y Mudiad Masnach Gyfiawn, ac am syniadau ar sut i fod yn rhan o'r ymgyrch i wneud gwahaniaeth.

Mae Cymorth Cristnogol a CAFOD yn cytuno ag amcanion Targedau Datblygiad y Mileniwm er mwyn gwella bywydau miliynau o bobl dlotaf y byd. Byddai newid rheolau masnachu'r byd yn un o'r cyfleon gorau o gyrraedd Targedau Datblygiad y Mileniwm.

Cymorth Cristnogol, 154, Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd. LL57 1NU 01248 353574
bniclas@christian-aid.org • CAFOD, 11 Ffordd Richmond, Caerdydd. CF24 3AQ 02920 453360
www.cafod.org.uk o www.cymorthcristnogol.org.uk